Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mehefin 12, 2018 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Is gadeirydd), John Hughes, Gareth Ellis, Llinos Williams, Elfed ap Gomer, Gethin Williams, Carwyn Evans. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau: Geraint Rowlands, Paul Williams.

Yn absenoldeb Geraint Rowlands (Cadeirydd) cadeirwyd y cyfarfod gan Simon Evans.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 8, 2018

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 8, 2018

Eitem 5. Eitem 4. Eitem 8.1. Llythyr (15/5/2018) oddi wrth Elfed ap Gomer yn rhoi gwybod nid yw'n hawlio'r £150.00 sydd ar gael iddo fel Cynghorydd Cymuned am y flwyddyn ariannol bresennol.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Simon Evans, John Hughes, Gareth Ellis, Llinos Williams, Gethin Williams a Carwyn Evans yn rhoi gwybod nid ydynt yn hawlio'r £150.00 sydd ar gael iddynt fel cynghorwyr gymuned am y flwyddyn ariannol bresennol.

5. Materion Ariannol

a. Bil (16//05/17) am £326.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at gasglu gwastraff masnachol o Fynwent Llanelltyd o 1/4/2017 i 31/3/2018. Llynedd y gost oedd £307.00.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Bil (14/5/5018) am £75.00 oddi wrth Mr Edward Harries am adnewyddu y ddau hysbysfwrdd yn Llanelltyd. Cytunwyd y pris yn Cofnodion Ionawr 9, 2018, Eitem4, Eitem 8.ch.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Galwad ffôn (1/5/2018) oddi wrth Archwilydd Mewnol angen dogfennau'r Cyngor ar 6/5/2018.

ch. Wedi gwneud ymoliadau (11/6/2018) ag Archwilydd Mewnol cafwyd gwybod nid oedd archwiliad y dogfennau wedi ei gwblhau. Roedd hyn yn golygu nid oedd y dogfennau ar gael cyn 12/6/2018 y dyddiad mae BDO eu hangen. Rhoddwyd gwybod hyn i BDO (11/6/2018).

ch. Balans yn y banc ar 29 Mai 2018: £9,636.56.

6. Mynwent Llanelltyd

Nid oedd adroddiad.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr ateb (11/5/2018), ateb i Eitem 4. Eitem 10.d. yn Cofnodion Rhagfyr 12, 2017 ynglŷn â lleoli sied ar dir ger Hafod Fach, Llanelltyd. Maent yn rhoi gwybod cafwyd cyfarfod gyda'r perchennog y tir a dywedodd bod y sied fach yn cael ei defnyddio ar gyfer storio offer ac nid yw'n cael ei ddefnyddio'n aml oherwydd ei chyflwr gwael. Oherwydd maint y sied nid yw'n ddelfrydol i weithredu'n ffurfiol. Mae'r perchennog mewn cysylltiad â Swyddog Coedwigaeth yr Awdurdod i blannu coed ar y tir ac am godi sied newydd yn lle'r un bresennol ac mae'n ymwybodol bydd angen caniatâd cynllunio am y sied.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (15/5/2018) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Neuadd Gymunedol Llanbedr ar ddydd Mercher, Mai 23 am 7.00yh. Bydd Dilwyn Owen Williams a Dyfrig Siencyn o Gyngor Gwynedd yn bresennol i drafod materion yn ymwneud a chydweithio rhwng Cynghorau Cymuned a Thref a Chyngor Gwynedd, ac yn benodol am drosglwyddo asedau a gwasanaethau.

Amgáu mae Agenda y Cyfarfod Blynyddol, Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd yn Chwefror 2018, Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a gynhalwyd ar Faes y Sioe Frenhinol, Llanfair ym Muallt ym mis Mawrth 2018, a rhestr o gyrsiau bydd ar gael.

O'r cyfarfod adroddodd Elfed ap Gomer mi roddwyd sylw i Cyngor Gwynedd rhoi gwybod i gynghorau cymuned a thref am daliadau bydd angen ei wneud cyn bydd praesept yn cael ei baratoi. Hefyd, bydd angen i gynghorau cymuned a thref rhoi sylw i GDPR.

b. Llythyr (23/5/2018) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith torri gwair yn cael ei wneud yn Llanelltyd ar 14/.5/2018 a 24/7/2018. Bydd y gwaith yn cychwyn ar y Cefnffyrdd yna ymlaen i'r Ffyrdd Sirol.

c. Anfonwyd cerdyn (30.5/2018) i Mr a Mrs Geraint Rowlands yn eu llongyfarch ar enedigaeth merch.

ch. Llythyr hir (29/4/2018) oddi wrth Mrs Clare Harries, Wrexham yn cwyno am gyflwr gwael Toiledau Bontddu ac yn dweud nid ydynt i safon dderbyniol.

Penderfynwyd:

a. ateb y llythyr.
b. i Carwyn Evans ymchwilio'r Toiledau.
c. gosod 'dispenser' yn dal sebon yn y Toiledau.

d. Llythyr (7/6/2018) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o Reolau Sefydlog newydd 2018.

Penderfynwyd rhoi copi o'r Rheolau Sefydlog i Elfed ap Gomer.

dd. Llythyr (8/6/2018) oddi wrth Uned Gyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Cyfyngiadau Dros Dro ar ffyrdd A470 / A496 at Ras Feicio ''Women's Tour of Britain 2018''. Bydd yn cael ei gynnal dydd Sul, Mehefin 17 2018, cychwyn am 6.00yb yn Nolgellau a gorffen ym Mae Colwyn..

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Mae Cyngor Gwynedd yn wynebu cyfnod anodd gyda thoriadau yn eu cyllideb.

b. Mae am wneud ymoliadau gydag Uwch Peiriannydd Traffig, Cyngor Gwynedd beth yw'r diweddaraf i gael llinellau melyn wrth Bont Wnin.

10. Materion Brys

Nid oedd materion brys.